**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

**National Assembly for Wales**
External Affairs and Additional Legislation Committee

Ken Skates AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

30 Hydref 2017

Annwyl Ysgrifennydd Cabinet,

**Ymchwiliad i oblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd i borthladdoedd Cymru**

Ysgrifennaf ynghylch Ymateb Llywodraeth Cymru i ymchwiliad i oblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd i borthladdoedd Cymru. Pan ymddangosodd yr Ysgrifennydd Gwladol David Davis AS gerbron Pwyllgor Dethol yr Undeb Ewropeaidd ar 25 Hydref 2017, nododd nad oedd wedi cael trafodaethau pendant â Llywodraeth Cymru ynghylch porthladdoedd, gyda chyfeiriad penodol at borthladd Caergybi.

Yn ein hadroddiad, gwnaethom nifer o argymhellion yn ymwneud yn benodol â'r angen i Lywodraeth Cymru bwyso ar Lywodraeth y DU ynghylch materion penodol sy'n ymwneud â Chymru. Yr argymhellion perthnasol, a gafodd eu derbyn neu eu derbyn mewn egwyddor, yw 1, 2, 3 a 4.

Mae'n achos pryder, felly, i'r Ysgrifennydd Gwladol ddweud yn ei dystiolaeth na chafwyd trafodaethau pendant yn ymwneud â Chaergybi a'r sector porthladdoedd ehangach yng Nghymru.  Ein gobaith yw y caiff y sefyllfa hon ei hunioni yn gyflym ac y bydd trafodaethau o'r fath yn cychwyn yn fuan.

Yn y cyfamser, yng ngoleuni sylw'r Ysgrifennydd Gwladol na chafwyd trafodaethau, dyma ofyn i chi roi i'r Pwyllgor:

- Fanylion llawn unrhyw gyfarfodydd ffurfiol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ar lefel Gweinidogion ac ar lefel swyddogion, lle y trafodwyd porthladdoedd Cymru a Brexit;


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMADY@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMADY
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEAAL@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEAAL
0300 200 6565

- Manylion unrhyw sgyrsiau dros y ffôn rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ar lefel Gweinidogion ac ar lefel swyddogion, lle y trafodwyd porthladdoedd Cymru a Brexit;
- Copïau o bob gohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar bwnc Brexit a'i oblygiadau i borthladdoedd Cymru.

Er i'n hadroddiad gael ei gyhoeddi yn ystod toriad yr haf, byddwn yn ddiolchgar pe bai'r wybodaeth y gofynnwyd amdani'n cynnwys y cyfnod ers canlyniad refferendwm yr UE hyd at ddyddiad y llythyr hwn.

Yn gywir,



David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.